Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Datganiad i'r Wasg / Press Release

I'W RYDDHAU AR UNWAITH/FOR IMMEDIATE RELEASE
Please scroll down for English

24 Medi 2010

Chwilio am feddygon newydd i feddygfeydd Cefn Mawr a Glannau Dyfrdwy

Cyn do hir, bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cychwyn ar y broses o benodi meddygon teulu newydd i ddarparu gwasanaethau meddygon teulu yn ardal Cefn Mawr, i'r de o Wrecsam ac yng Nghanolfan Feddygol Glannau Dyfrdwy.

Ers ymddeoliad Dr Husain ym mis Ionawr a Dr Das ym mis Chwefror 2010, bu'r Bwrdd Iechyd yn rhedeg y gwasanaethau hyn dros dro. Ond y bwriad bob amser oedd i feddygon teulu redeg y meddygfeydd yn barhaol.

Rydym yn ysgrifennu at bob claf yn y meddygfeydd i adael iddynt wybod fod y broses ar fin cychwyn ac i'w gwahodd i roi eu barn ar gwestiynau fel:

- Fyddai'n well gennych gael y dewis o weld meddyg teulu benywaidd?
- Oes yna unrhyw wasanaethau penodol yr hoffech weld yn cael eu cynnig?
- Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau am welliannau eraill yr hoffech eu trafod â'r meddygon newydd?

Byddwn hefyd yn gofyn barn y Cyngor Iechyd Cymuned, Cynghorwyr lleol ac eraill sydd â diddordeb wrth ystyried y ceisiadau.

Bydd y Bwrdd Iechyd yn ystyried cynigion gan feddygfeydd presennol yn ogystal â cheisiadau gan feddygon sy'n newydd i'r ardal. Gallai eu cynigion gynnwys parhau i ddarparu gwasanaethau ar y safleoedd presennol (Clinig Cefn Mawr a Chanolfan Feddygol Glannau Dyfrdwy) neu sefydlu meddygfa mewn cyfeiriad arall o fewn yr ardal ac o fewn pellter rhesymol at y feddygfa bresennol.

Yn ogystal â bod yn gymwys, a bodloni'r holl amodau i weithio fel meddyg teulu yng Nghymru, bydd gofyn i'r ymgeiswyr llwyddiannus ein sicrhau y gallant ddarparu ystod lawn o wasanaethau meddygol cyffredinol ledled ardal y feddygfa.

Yn ystod y broses penodi, bydd y gwasanaethau presennol yn parhau fel arfer.

DIWEDD

Nodiadau i olygyddion

Gall unrhyw un sydd am roi sylwadau ar hyn ysgrifennu at:

Mrs Lynne Joannou, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cefnogaeth Gofal Cychwynnol
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
17 Stryd Fawr
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7LT

Neu, gall pobl gysylltu â'r Cyngor Iechyd Cymuned yn gyfrinachol:

Mrs Carol Williams, Dirprwy Prif Swyddog, Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd
Cyngor Iechyd Cymuned Betsi Cadwaladr
Ffordd Glanhwfa,
Llangefni,
Ynys Môn
LL77 7EN

e-bost: carol@nwwaleschc.org.uk
Rhif ffôn: 01248 723283

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

Mr Andy Scotson	**01978 725130**
Mr Trystan Pritchard	**01248 384938**
Mrs Dawn Davies	**01745 534495**

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

24 September 2010

New doctors sought for Cefn Mawr & Deeside practices

The Betsi Cadwaladr University Health Board will shortly be starting the process to appoint new GPs to provide family doctor services in the Cefn Mawr area south of Wrexham and at Deeside Medical Centre.

The Health Board has been running these services, on a temporary basis, since the retirement of Dr Husain in January and Dr Das in February 2010. However the intention has always been for GPs to take over the practices on a permanent basis.

We are writing to all patients with the practices to let them know that this process is about to start, and to invite them to let us have their views on questions such as:

- Would you prefer to have the option to see a female GP?
- Are there any particular services that you would want the new practice to offer?
- Do you have any suggestions for other improvements that you would like us to discuss with the new doctors?

We will also be seeking the views of the Community Health Council, local Councillors and other interested parties when considering the applications.

The Health Board will consider proposals from existing local GP Practices, as well as applications from doctors who would be new to the area. Their proposals may include continuing to provide services from the current locations (Cefn Mawr clinic and Deeside Medical Centre) or setting up the practice at another address within the practice area and within a reasonable distance of the existing surgery.

As well as being suitably qualified and meeting all necessary conditions for working as a GP in Wales, the successful candidates will have to assure us that they will have arrangements in place to provide a full range of general medical services across their practice area.

The existing services will continue to operate as usual while the appointment process is carried out.

ENDS

Notes to editors

Anyone who wishes to comment on this is welcome to write to:

Mrs Lynne Joannou, Assistant Director Primary Care Support
Betsi Cadwaladr University Health Board
17 High Street,
Llangefni,
Anglesey,
LL77 7LT

Alternatively people can contact the Community Health Council in confidence:

Mrs Carol Williams, Deputy Chief Officer, Patient and Public Involvement
Betsi Cadwaladr Community Health Council
Glanhwfa Road,
Llangefni,
Anglesey,
LL77 7EN

e-mail: carol@nwwaleschc.org.uk
telephone:01248 723283

For further information please contact:

Mr Andy Scotson	**01978 725130**
Mr Trystan Pritchard	**01248 384938**
Mrs Dawn Davies	**01745 534495**